# Bwyð i Feððwl

Diweððariað COVID-19 gan Fwrðð Diwyðiant Bwyð a Dioð Cymru





**1 Mai 2020**



"Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru'n bodoli i hyrwyddo bwyd a diod yng Nghymru, ac mae'r argyfwng digynsail cyfredol yn sgil COVID-19 wedi dangos bod y rôl honno'n fwy hanfodol nag erioed. Nod y diweddariadau yma gan y Bwrdd yw darparu gwybodaeth reolaidd a chryno i'r diwydiant, ac yn hanfodol, cyfeirio pobl at y wybodaeth sydd ei hangen y funud hon.

Wedi rhagori ar darged y diwydiant o ran twf, a bennwyd yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-2020, sef tyfu o £5bn i £7bn, mae hi'n hanfodol ein bod ni'n amddiffyn y llwyddiant hwn trwy gydol y pandemig, gan gynnal ansawdd cynnyrch bwyd a diod Cymreig, a meithrin mwy o ddycnwch ar ben draw'r cyfyngiadau ar symud.

Bydd yna sawl agwedd o'r diwydiant i'w hystyried yn y dyfodol, gan gynnwys rôl cyllid a thechnoleg, pa farchnadoedd i'w targedu, a sut i elwa ar unrhyw ddulliau newydd buddiol o weithio sydd wedi codi o'r argyfwng.

Ond am y tro, rydyn ni'n cydnabod bod pethau'n anodd dros ben i lawer iawn o fusnesau yn y sector. Rwy'n eich annog chi i estyn allan at y bwrdd a rhannu eich pryderon a'ch dealltwriaeth chi o’r sefyllfa sydd ohoni fel y gallwn ddarparu'r atebion gorau posibl ar gyfer eich busnes a'r sector ar led. Ein cenhadaeth ni, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yw cydweithio'n agos â busnesau bwyd a diod er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i gynnal busnes sy'n gynaliadwy, yn wydn ac yn broffidiol.”

**Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**

## Camau allweððol o’r wythnos

*rhai gweithreðoeðð onð nið pob un

- Trwy gydol yr wythnos, rydyn ni wedi bod yn cynnal galwadau cynadledda dyddiol gydag aelodau'r Bwrdd a chydweithwyr uwch yn Llywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at feysydd allweddol o'r diwydiant sydd wedi cael eu taro gan Covid-19, a’u trafod. Mae'r cyfarfodydd yn elwa hefyd ar leisiau arbenigwyr o'r diwydiant sy'n darparu dirnadaeth bellach o'r materion.
- Yr wythnos hon fe edrychon ni ar sectorau allweddol, gan gynnwys hufenfeydd, cig eidion a chig oen, moch a dofednod, bwyd y môr, garddwriaeth, pobi a bwydydd parod er mwyn clustnodi'r materion allweddol sy'n codi o'r pandemig. Mae dealltwriaeth o sectorau penodol yn helpu'r Bwrdd a'r llywodraeth i gael gwell dealltwriaeth a datrys yr amryw o broblemau sy'n effeithio ar bob un o'r meysydd unigol hyn.
- Mynychodd ein Cadeirydd rith gyfarfod gyda'r gweinidogion, y bobl sy'n gyfrifol am wneud polisïau lefel uwch o fewn y llywodraeth ac arweinwyr y diwydiant i drafod materion sy’n gysylltiedig â'r diwydiant llaeth er mwyn ceisio dod o hyd i’r atebion gorau.
- Ynghyd ag Arloesi Bwyd Cymru, rydyn ni wedi bod yn gweithio ar arolwg i'w rannu â busnesau bwyd a diod yng Nghymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion y diwydiant a phenderfynu ar y ffyrdd gorau o fynd ati i ddatrys y problemau y mae llawer o fusnesau'n eu hwynebu.
- Rydyn ni wedi dechrau ystyried rhestr gyfeirio ar gyfer busnesau ar ffyrlo ac sydd wedi cau dros dro er mwyn eu cynorthwyo i baratoi ar gyfer cynhyrchiant arferol ar ôl codi’r cyfyngiadau.
- Cawsom gyfarfod â BIC (Busnes yn y Gymuned) i drafod y Rhaglen Barod i Fuddsoddi a'r goblygiadau ar gyllid ar gyfer busnesau bwyd a diod.
- Rydyn ni wrthi'n gweithio gyda Synnwyr Bwyd Cymru i ennyn gwell dealltwriaeth o'r broblem ansicrwydd bwyd sy'n deillio o Covid-19. Rydyn ni'n gweithio gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i bennu'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o fynd ati i symud hyn yn ei flaen.
- O ddydd i ddydd, rydyn ni'n cydgysylltu â'r Ffederasiwn Bwyd a Diod a sefydliadau partner eraill er mwyn rannu gwybodaeth a phenderfynu ar yr atebion gorau i'r sector bwyd a diod ar raddfa genedlaethol.
- Rydyn ni wedi parhau i rannu dolenni at wybodaeth, cymorth a phecynnau cymorth trwy Twitter a LinkedIn, ac wedi cefnogi Noson Gwinoedd Cymreig gyda phecynnau'r cyfryngau cymdeithasol.
- Mae'r Gweithgor Facebook yn parhau i bostio a rhannu cyfleoedd defnyddiol i weithluoedd a gwybodaeth yn y diwydiant.

## Prif straeon newyððion yr wythnos

- Map Cywain yn pwyntio siopwyr at fwydydd a diodydd Cymreig yng nghanol y pandemig coronafeirws
- Technoleg yn helpu cynhyrchwyr bwyd i gyrraedd cwsmeriaid
- Cyhoeddi grant pysgodfeydd yng Nghymru i helpu'r sector pysgota
- Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i warantu cyllid am brydau ysgol yn ystod y gwyliau

## Cymorth Covið-19

Cliciwch ðrwoðð i gael gwyboðaeth ychwanegol am yr aðnoððau syðð ar gael








## Lleisiau o'r ðiwyðiant

Gyða James Wright, Rheolwr Gyfarwyððwr Distyllfa Wisgi Aber Falls






Sefydlwyd Distyllfa Wisgi Aber Falls yn y gogledd yn 2017, fel y cyntaf o'i fath yn y rhanbarth ers dros 100 mlynedd. Mae'r tîm yn distyllu jin a gwirodydd arobryn, a bydd yn ychwanegu wisgi at ei bortffolio cyn bo hir.

Fel llawer o fusnesau eraill, mae Aber Falls yn wynebu nifer o sialensiau o ganlyniad i’r pandemig coronafeirws. Rydyn ni wedi parhau â gwaith y distyllfa, ond â llai o staff, fel y gallwn barhau i ddarparu cyflenwadau ar gyfer cwsmeriaid ar draws y wlad.

Mae'r argyfwng wir wedi taro pob cornel o'n diwydiant a bydd yn parhau i effeithio arno dros y misoedd nesaf. Mae’r ffaith fod tafarndai, bwytai, gwestai a chlybiau ar gau wedi cael effaith aruthrol ar gyfanwerthwyr y sector, sydd ar gau dros dro am nad oes unrhyw alw, ac mae ein gwerthiannau i gyfanwerthwyr wedi stopio'n llwyr. Mae'r argyfwng wedi effeithio ar ein gwerthiannau rhyngwladol, am nad yw ein partneriaid yn Ewrop a Dwyrain Asia yn gallu cael eu mewnforion dros y ffiniau. Rydyn ni wedi gorfod gohirio agoriad ein canolfan ymwelwyr newydd tan yr hydref hefyd.

Ein gwaith cynhyrchu gwirodydd yw sylfaen ein busnes, felly bydd y tîm a fi yn gwneud popeth y gallwn ni i sicrhau ein bod ni'n cynnal lefelau cynhyrchiant yn ystod y cyfnod digynsail yma. Rydyn ni wedi rhoi mesurau newydd ar waith yn unol â chanllawiau'r llywodraeth fel y gallwn gadw'r distyllfa'n weithredol, a hynny wrth gadw pellter cymdeithasol a sicrhau bod prosesau hylendid yn cael eu dilyn yn ofalus.

Mae hyn wedi cynnwys cael unigolion o bob rhan o'r tîm, a fyddai'n cyflawni rolau marchnata neu drefnu achlysuron fel arfer, i dorchi llewys a dysgu crefft distyllu a chynorthwyo'r gwaith o gynhyrchu gwirodydd.

Rydyn ni wedi bod yn cynhyrchu glanedyddion dwylo mewn swmp ar gyfer awdurdodau lleol hefyd, yn ogystal ag ystyried y posibilrwydd o'u pecynnu ar ffurf toddiant bag mewn bocs er hwylustod. Mae'r distyllfa wedi dechrau cynnig gwasanaeth danfon i gartrefi ar draws y gogledd hefyd, er mwyn helpu i leddfu'r pwysau ar gyflenwyr lleol a rhoi cyfle i'n cymuned leol fwynhau eu hoff jin neu wirodydd yn ystod y cyfyngiadau.

Er gwaetha'r ansicrwydd y mae’r pandemig wedi ei achosi, yn Aber Falls byddwn ni'n parhau i fod yn uchelgeisiol a gosod ein cymuned ar flaen ac wrth galon popeth a wnawn. Rydyn ni bob amser yn ymdrechu i fod yn fusnes allweddol i Gymru, ac ni fyddwn ni'n troi nôl ar ein hamcanion i greu cymuned gadarn o gynhyrchwyr Cymreig gan helpu i osod y rhanbarth ar fap y 'bwydgarwyr' a chefnogi economi'r wlad.

Mae'r toriadau yn y gadwyn gyflenwi wedi dwyn goblygiadau o ran llif arian na ellir eu tanbrisio. Er mwyn ymateb i'r her sydd o'n blaenau yn y fan a’r lle, mae arnom angen cymorth clir gan y Llywodraeth fel y gallwn barhau i weithredu a chynnal y momentwm fel bod gennym gyfle teg o lwyddo yn y dyfodol.

Caðwch mewn cysylltiað am ððiweððariaðau

Ymunwch â'n Grŵp Facebook i rannu gweithluoeðð

Cysylltwch â ni: Chair.FDWIB@gov.wales